Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg ECO4 Cyngor Sir Ceredigion

Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad Cyhoeddi: 01/10/2022

Rhif y fersiwn: V 1.0

Cyhoeddiad ar y wefan: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/housing/financial-assistance/energy-efficiency-schemes/eco-flexibility-funding/

Mae'r datganiad hwn yn nodi meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO4) o fis Ebrill 2022 – Mawrth 2026.

Bydd cynllun ECO4 yn canolbwyntio ar gefnogi aelwydydd incwm isel, bregus. Bydd y cynllun yn gwella'r cartrefi lleiaf ynni effeithlon gan helpu i fodloni ymrwymiadau tlodi tanwydd a sero net y Llywodraeth.

Cyfeirir at y dull hyblyg ar gyfer Awdurdodau Lleol (ALl) o nodi aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd ac aelwydydd sy'n fregus a allai elwa o fesurau gwresogi ac arbed ynni fel "ECO4 Flex".

Mae'r Cyngor yn croesawu cyflwyniad llwybrau cymhwyster ECO4 Flex gan ei fod yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei gynlluniau i wella cartrefi'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu'n agored i'r oerfel.

Mae Tîm Effeithlonrwydd Ynni Tai Cyngor Sir Ceredigion yn rheoli fframwaith o osodwyr ECO4 cymeradwy, sy'n galluogi gosodwyr i wneud atgyfeiriadau uniongyrchol i'r cynllun ar gyfer gwiriadau cymhwysedd a llofnodi datganiadau (os ydynt yn gymwys). Nid yw'r tîm yn derbyn atgyfeiriadau gan gynhyrchwyr arweiniol neu drydydd partïon nad ydynt ar ein fframwaith cymeradwy ac nad ydynt wedi'u hachredu i wneud gwaith ECO4 eu hunain.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad hwn ar 01/10/2022 i gadarnhau y bydd pob un o'r aelwydydd a ddatganwyd yn cadw at o leiaf un o'r tri llwybr sydd ar gael a amlinellir isod:

Llwybr 1: Bandiau SAP D-G aelwydydd ag incwm o lai na £31,000. Mae'r cap hwn yn berthnasol beth bynnag yw maint yr eiddo, y cyfansoddiad neu ranbarth.

Llwybr 2: Bandiau SAP E-G aelwydydd sy'n bodloni cyfuniad o ddau o'r procsiaid canlynol:

Procsi 1) Cartrefi mewn darpariaeth Gymraeg LSOA 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.[1]
Procsi 2) Deiliaid tai sy'n derbyn ad-daliad Treth y Cyngor (ad-daliadau yn seiliedig ar incwm isel yn unig, heb gynnwys ad-daliadau person sengl).

Procsi 3) Deiliaid tai sy'n agored i fyw mewn cartref oer fel y nodir yng Nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Dim ond un o'r rhestr y gellir ei ddefnyddio, ac nid yw'n cynnwys y procsi 'incwm isel'.
Procsi 4) Deiliad tŷ sy'n cael prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel.
Procsi 5) Deiliad tŷ a gefnogir gan gynllun a redir gan yr ALl, sydd wedi'i enwi a'i ddisgrifio gan yr ALl fel un sy'n cefnogi aelwydydd incwm isel, bregus at ddibenion Canllaw NICE.
Procsi 6) Cartref sydd wedi cael ei gyfeirio at yr ALl am gymorth gan eu cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth oherwydd eu bod wedi'u nodi fel rhai sy'n cael trafferth talu eu biliau trydan a nwy.

*** Nodwch na ellir defnyddio procsiaid 1 a 3 gyda'i gilydd.**

Llwybr 3: Bandiau SAP aelwydydd D-G lle mae eu meddyg neu eu meddyg teulu wedi nodi eu bod ar incwm isel ac yn fregus, gyda phreswylydd sydd â chyflwr iechyd gall cael ei effeithio ymhellach trwy fyw mewn cartref oer. Gall y cyflyrau iechyd hyn fod yn rhai cardiofasgwlaidd, anadlol, gwrthimiwnedd, neu symudedd cyfyngedig.

Mae hyn oherwydd bod y Cyngor wedi nodi cydberthynas gadarnhaol rhwng aelwydydd sy'n dioddef o gyflyrau iechyd hirdymor ac sy'n byw oddi ar incwm isel, â byw mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael.

[1] Welsh Index of Multiple Deprivation (full Index update with ranks): 2019 | GOV.WALES

Datganiad a chadarnhad o'r gwiriad tystiolaeth

Dylai pob aelwyd a allai fod yn gymwys wneud cais drwy Gyngor Sir Ceredigion neu drwy un o osodwyr ECO 4 cymeradwy Cyngor Sir Ceredigion i sicrhau y gallant naill ai elwa o'r cynllun neu gael eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys o dan unrhyw raglen berthnasol arall (er enghraifft, y Gronfa Cartrefi Cynnes).

Bydd y swyddog isod yn gyfrifol am wirio a dilysu datganiadau a thystiolaeth gysylltiedig a gyflwynir ar ran yr awdurdod lleol:

Enw: Gareth Payne

Teitl Swydd: Swyddog Addasiadau Tai ac Effeithlonrwydd Ynni

Rhif ffôn: 01545 572167

Ebost: garethp@ceredigion.gov.uk

Llofnod gorfodol y Prif Swyddog Gweithredol neu berson cyfrifol penodedig

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweinyddu'r cynllun yn unol â Gorchymyn ECO4 BEIS a bydd yn nodi aelwydydd cymwys drwy broses ymgeisio Ofgem. Bydd Prif Weithredwr y Cyngor yn goruchwylio'r broses o nodi aelwydydd cymwys o dan ECO4 Flex.

Bydd y wybodaeth cymhwysedd yn cael ei storio'n ddiogel yn unol â pholisi diogelu data'r Cyngor, Cod Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chanllawiau BEIS.

Llofnod: 

Enw: Eifion Evans

Teitl Swydd: Prif Swyddog Gweithredol / person cyfrifol penodedig

Dyddiad y llofnod: 14/09/2022

Am unrhyw ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â'r datganiad o fwriad hwn, cysylltwch â garethp@ceredigion.gov.uk.